

YSGOL SYR HUGH OWEN
Caernarfon



Canllawiau Arholiadau i Ddisgyblion a Rhieni



CYNNWYS

- ⇒ **Cyflwyniad**
- ⇒ **Cyn yr Arholiadau**
- ⇒ **Yn ystod yr Arholiadau**
- ⇒ **Ar ôl yr Arholiadau**
- ⇒ **Cwestiynau**

CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Syr Hugh Owen yn gwneud pob ymdrech i wneud y profiad arholiadau mor ddi-drafferth a llwyddiannus ag sydd bosib i bob ymgeisydd yn ein gofal.

Gobeithiwn y bydd y llyfryn hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a fydd o fudd i chi ac i'ch rhieni.

Gofynnwn i chi ei ddarllen y ofalus a'i ddangos i'ch rhieni fel eu bod hwythau yn ymwybodol o reoliadau arholiadau a'r cyfundrefnau i'w dilyn pan fydd problemau yn codi.

Mae'r byrddau arholi yn gosod canllawiau caeth sy'n rhaid cyd-ymffurfio â hwy pan yn cynnal arholiadau ac mae'n ofynnol bod Ysgol Syr Hugh Owen yn cyd-ymffurfio'n llwyr.

Felly, dylech dalu sylw manwl i'r rhybuddion gaiff eu cynnwys ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Gall y bydd rhai cwestiynau sydd gennych yn cael eu hateb ar ddiwedd y llyfryn. Ond os oes gennych gwestiwn nad ydym yn ei ateb yma GOFYNNWCH!

Os oes ymholiad gan eich rhieni, neu maent yn dymuno cyngor help ar unrhyw adeg, boed cyn, yn ystod neu wedi'r arholiadau yna gofynnir iddynt gysylltu gyda'r Swyddfa Arholiadau.

Dyma fanylion staff cyswllt Ysgol Syr Hugh Owen:

Mr Sion Wyn Jones, Swyddog Arholiadau a Phennaeth Cynorthwyol

Mrs Wena Jones, Cymhorthydd Gweinyddol Arholiadau

Rhif Ffôn: 01286 673076.

E-bost: post@gweinyddol.syrhughowen.gwynedd.sch.uk

Cofiwch - rydym yma i'ch helpu.

POB LWC!

CYN YR ARHOLIADAU:

DATGANIAD MYNEDIAD:

Mae pob YMGEISYDD yn derbyn DATGANIAD MYNEDIAD gan yr ysgol fydd yn nodi pa bynciau maent wedi eu cofrestru ar eu cyfer yn ogystal â lefel y mynediad, lle'n addas. Gofynnwn i chi wirio bod rhain yn gywir, ac yn benodol gwiriwch bod yr holl wybodaeth bersonol amdanoch yn gywir (dyddiad geni, sillafu eich enw) gan mai rhain fydd yn ymddangos ar eich Tystysgrifau terfynol, ac mae'n anodd iawn newid rhain unwaith mae'r dystysgrif wedi ei chyflwyno. Dim ond un haen sydd gan rai pynciau, ond mae gan rai pynciau Haenau Sylfaenol ac Uwch. Gwiriwch rhain hefyd.

BYRDDAU ARHOLI

- Mae Ysgol Syr Hugh Owen yn defnyddio'r byrddau arholi canlynol: CBAC, Edexcel/Pearson a BCS.

ENW'R YMGEISYDD

- Caiff ymgeiswyr eu cofrestru dan y fformat canlynol Enw Cyntaf + Enw Canol + Cyfenw (Cyfreithiol), e.e. Sion Wyn Jones

RHIF YR YMGEISYDD

- Mae gan pob ymgeisydd rif ymgeisydd 4 digid. Hwn yw'r rhif y byddwch yn ei roi ar bob un o'ch papurau arholiad. Bydd yn ymddangos gyferbyn â'ch enw ar y rhestrau desgiau ac ar bob cofrestr arholiad. Bydd eich rhif ymgeisydd yn ymddangos ar eich amserlen arholiadau hefyd. **Dysgwch o!**

UCI

- Yn ychwanegol at eich rhif ymgeisydd, mae gan bob ymgeisydd Rif Ymgeisydd Unigryw (Unique Candidate Identifier) 12 rhif ac un lythyren sy'n ymddangos ar eich gwaith papur arholiadau. Bydd y rhif hwn fel rheol yn cychwyn gyda **rhif y ganolfan** sef **68431** onibai eich bod wedi trosglwyddo o ysgol arall wedi i'r rhif hwnnw gael ei roi i chi. Bydd y rhif UCI yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion gweinyddol ac nid yw'n hanfodol i chi ei gofio.

CYN YR ARHOLIADAU: (parhâd)

ULN:

- Mae ULN (Unique Learner Number/Rhif Unigryw y Dysgwr) yn rif cyfeirnod 10 digid a gaiff ei ddefnyddio ochr yn ochr â Chofnod Dysgu Personol unrhyw ddysgwr sydd dros 14 oed ac sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant yn y Deyrnas Unedig.

Bydd y rhif hwn yn unigryw i'r dysgwr drwy gydol ei oes i'w galluogi i gael mynediad i'w Cofnod Dysgu Personol, beth bynnag fydd eu lefel o addysg neu ble bynnag byddant yn dewis ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu ddysgu.

Nid yw'n ofynnol i chi ei gofio, er bydd ei angen arnoch pe byddwch yn symud i sefydliad addysgol arall e.e. coleg, prifysgol, neu hyfforddiant yn y gweithle.

AMSERLEN

- Byddwch yn derbyn amserlenni personol yn dangos eich arholiadau penodol chi gyda manylion y dyddiad, amser, a hyd yr arholiad. **Gwiriwch hwn yn fanwl.** Os ydych yn meddwl bod rhywbeth yn anghywir neu o'i le yna cysylltwch â'r Swyddfa Arholiadau yn syth.
- Bydd gan rhai ymgeiswyr wrthdaro ar eu hamserlenni, ble bydd dau bwnc wedi eu hamserlennu ar yr un pryd e.e. Addysg Gorfforol a Cymraeg Lefel A. Os bydd cyfanswm y ddau arholiad hwn yn fwy na tair awr, bydd trefniadau arbennig yn eu lle. Mae'n rhaid i chi wirio eich amserlen yn fanwl ac ewch i weld y Swyddog Arholiadau os ydych yn ansicr o'r trefniadau. **Os ydych yn meddwl bod gwrthdaro heb ei ddatrys ar eich amserlen, cysylltwch gyda'r Swyddfa Arholiadau'n SYTH.**

RHIFAU CYSWLLT

- Sicrhewch fod gan yr ysgol o leiaf un rhif ffôn cyswllt cyfredol ar eich cyfer.

OFFER

- Sicrhewch bod yr offer addas gennych cyn eich arholiadau. Gwiriwch y rheoliadau ar y rhybudd Gwybodaeth i Ymgeiswyr a'r wybodaeth ar y tudalennau canlynol.

GWEFANAU CYMDEITHASOL

- Rydym i gyd yn hoff o rannu ein profiadau pan yn sefyll arholiadau. Er hynny, mae'n bwysig i chi gysidro'r hyn fyddwch yn ei ysgrifennu. Gall eich sylwadau ddilyn at ymchwiliad i gamarfer a gall olygu cosb. Caiff canllawiau eu paratoi gan JCQ ynglyn â rhoi sylwadau am arholiadau ar y wê.

YN YSTOD YR ARHOLIADAU

RHEOLIADAU ARHOLIADAU

- Gellir cael copi o "Gwybodaeth i Ymgeiswyr" a gyhoeddir gan y byrddau arholi ar y cyd gan y Swyddog Arholiadau. Dylai ymgeiswyr ddarllen rhain yn ofalus a dylid bod yn ymwybodol y gall unrhyw achos o dorri rheolau arwain at yr unigolyn yn cael ei anghymwysu (*disqualify*) o bob un pwnc. **Mae'n rhaid, ac mi wnaiff** yr ysgol adrodd ar unrhyw dor-rheol i'r Bwrdd Arholi.

PRESENOLDEB YN YR ARHOLIADAU

- Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am wirio eu hamserlenni eu hunain a dylent gyrraedd yr ysgol ar y diwrnod a'r amser cywir, yn eu gwisg ysgol a gyda'r offer priodol. Dylai ymgeiswyr gyrraedd yr ysgol **o leiaf 15 munud** cyn yr arholiad. Dylech sefyll tu allan i'r ystafell arholiad cyn y cewch eich gwahodd i mewn gan yr goruchwylwyr arholiadau.
- Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yn hwyr yn parhau i gael mynediad i sefyll yr arholiad ond ni fyddant yn cael unrhyw amser ychwanegol. Os ydyw amgylchiadau arbennig yn berthnasol i chi yna dylech drafod rhain gyda'r Swyddog Arholiadau (gweler Absenoldeb o Arholiadau).
- Dylai **pob ymgeisydd wisgo Gwisg Swyddogol yr Ysgol ar gyfer yr arholiadau**, ac mae hawl gan yr ysgol i wrthod mynediad i unrhyw un sydd ddim yn cydymffurfio gyda'r rheol yma.
- Dylai pob darn o offer—pensiliau, beiros, offer mathemategol a.a. fod yng ngolwg y goruchwylwyr arholiadau ar bob achlysur. Dylech unai ddefnyddio cās pensiliau clir neu fag plastig clir.
- Dylai beiros fod yn rhai du *ballpoint* (DIM GEL PENS). Ni chaniateir pinau cywiro
- Ar gyfer arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth, dylai myfyrwyr sicrhau bod eu cyfrifiannellau yn rhai sy'n cydymffurfio â'r canllawiau arholi. Os ydych yn amau nad ydy eich cyfrifiannell yn cydymffurfio, gwirwch gyda'ch athro pwnc. Dylech dynnu unrhyw orchuddion neu ganllawiau a sicrhewch bod y batris yn rhai newydd.
- Sicrhewch bod unrhyw larwm ar eich oriawr yn cael ei ddiffodd.
- Peidiwch ac ymgeisio ar unrhyw achlysur i gyfathrebu nac i dynnu sylw ymgeiswyr eraill.
- Mae canllawiau rheoli arholiadau yn gaeth iawn ynglŷn ag eitemau a gaiff eu caniatáu mewn ystafell arholiad. Os byddwch yn torri'r rheolau hyn yna byddwch yn cael eich anghymwysu o'r arholiad.

YN YSTOD YR ARHOLIADAU - (parhâd)

- **Ffonau Symudol—RHAID I BOB DISGYBL SICRHAU FOD FFONAU SYMUDOL YN CAEL EU RHOI YN Y BOCS PRIODOL AR Y FFORDD I FEWN I'R ARHOLIAD. DYLLID SICRHAU FOD POB FFON YN CAEL EU DIFFODD CYN EU BOD YN CAEL EU RHOI YN Y BOCS.**
- Dim ond poteli bychan tryloyw o ddwr a ganiateir yn yr ystafell arholi, a dylid tynnu pob label cyn mynd i mewn i'r arholiad. Bydd unrhyw boteli gyda labeli yn cael eu taflu i'r bin sbwriel.
- **Ni chaniateir** gwm cnoi, pethau da na bwyd yn yr ystafelloedd arholi.
- **Gwrandewch yn ofalus** ar ganllawiau a rhybuddion a gaiff eu darllen gan yr goruchwylwyr arholiadau—fe all bod addasiadau i'r papur arholiad yr ydych angen gwybod amdanynt.
- Gwiriwch bod gennych y papur cwestiynau cywir—dylech wirio'r pwnc, y papur a'r haen.
- Darllenwch y cwestiynau'n ofalus a rhifwch eich atebion yn glir.
- Dylai ymgeiswyr aros yn yr ystafell arholi am gyfnod llawn yr arholiad. Ni fyddwch yn cael gadael yr ystafell arholi'n gynnar. Os ydych wedi cwblhau'r papur yna dylech ddefnyddio'r amser ar ben i wirio eich atebion a gwirio eich bod wedi cwblhau eich manylion yn gywir.
- Dylai ymgesiwyd dynnu eu horiawr a'i roi ar y ddesg.

YN YSTOD YR ARHOLIADAU - (parhâd)

- Ar ddiwedd yr arholiad dylid rhoi pob darn o waith i mewn—cofiwch groesi unrhy waith drafft. Os ydych wedi defnyddio mwy nag un llyfr atebion neu daflenni o bapur rhydd gofynnwch am dag i'w cadw efo'i gilydd yn y drefn gywir—a chofiwch ychwanegu eich manylion arholi ar bob darn ychwanegol o bapur.
- Bydd y goruchwylwyr yn casglu eich papurau arholiad cyn i chi adael yr ystafell. Ni chaniateir siarad yn ystod y cyfnod hwn. Cofiwch eich bod yn parhau i fod dan amodau arholiad hyd nes y byddwch wedi gadael yr ystafell.
- Ni chaniateir i unrhyw bapur, papurau arholiad neu bapurau ychwanegol fynd allan o'r ystafell arholi.
- Parhewch i eistedd yn dawel hyd nes y byddwch yn cael caniatad i adael yr ystafell. **Gadewch yr ystafell yn dawel a dangoswch barch i ymgeiswyr eraill a all fod yn parhau i fod mewn arholiad.**
- Os yw'r **larwm tân** yn canu yn ystod yr arholiad bydd y goruchwylwyr arholiadau yn dweud wrthych beth fydd y camau i'w cymryd. Peidiwch â chynhyrfu. Pe bydd gofyn i chi adael yr ystafell bydd gofyn i chi wneud hynny'n **dawel** ac yn y drefn yr ydych yn eistedd. Byddwch yn cael eich tywys i fan cynnull wedi ei nodi. Gadewch bob dim ar eich desg. Ni ddylech wneud unrhyw ymgais i siarad ag unrhyw un arall yn ystod y cyfnod hwn. Pan fyddwch yn dychwelyd i'r ystafell arholi peidiwch a dechrau ysgrifennu hyd nes bydd y goruchwylwyr yn dweud wrthych i wneud hynny. Byddwch yn cael yr amser cyflawn ar gyfer yr arholiad a bydd adroddiad yn cael ei anfon i'r bwrdd arholi perthnasol yn nodi'r digwyddiad.
- Peidiwch ag ysgrifennu ar y desgiau arholiad os gwelwch yn dda. Caiff hyn ei gysidro'n **fandaliaeth** a bydd gofyn i chi dalu am unrhyw ddifrod.
- Peidiwch a thynnu lluniau anwedus na graffiti ar y papurau arholiad—gall y bwrdd arholi wrthod derbyn eich papur.

YN YSTOD YR ARHOLIADAU - (parhâd)

RHEOLIADAU ARHOLIADAU

- Mae'r ysgol yn cyflogi goruchwylwyr arholiadau i reoli arholiadau. Disgwylir i fyfyrwyr ymddwyn yn barchus tuag atynt a dilyn eu cyfarwyddiadau ar bob achlysur.
- Mae'r goruchwylwyr arholiadau yn yr ystafelloedd arholi i oruchwylio pob arholiad. Hwysy'n gyfrifol am rannu a chasglu pob papur arholiad, dweud wrth ymgeiswyr pryd i gychwyn a gorffen arholiad, rhannu papurau ysgrifennu ychwanegol os oes angen a delio efo unrhyw broblem sy'n codi yn ystod yr arholiad e.e. os yw ymgeisydd yn teimlo'n sâl.
- Nodwch na all goruchwylwyr arholiadau drafod y papur arholiad gyda chi nac egluro unrhyw air na chwestiwn.
- Bydd myfyrwyr sy'n amharu neu'n cam-ymddwyn yn cael eu symud o'r ystafell arholi.
-

ABSENOLDEB O'R ARHOLIADU

- Os ydych yn cael trafferthion yn ystod yr arholiadau (e.e. salwch, damwain, problemau personol) mae'n rhaid i'r ysgol gael gwybod yn syth, **ar ddiwrnod yr arholiad**. Mewn achosion o salwch bydd rhaid i dystiolaeth gael ei basio ymlaen i'r swyddfa arholiadau o fewn 5 niwrnod i'r arholiad sydd wedi cael ei effeithio.
- Dim ond mewn 'amgylchiadau arbennig' y caiff ymgeiswyr ystyriaeth arbennig am absenoldeb o unrhyw ran o arholiad. Mae'n **hanfodol** bod dystiolaeth addas yn cael ei ddarparu ar y diwrnod gan yr ymgeisydd/rhiant ac yn cael ei roi i'r Swyddog Arholiadau o fewn 5 niwrnod i'r arholiad sydd wedi cael ei effeithio.
- Ar gyfer darparu gradd mewn amgylchiadau arbennig, ble mae myfyriwr yn colli rhan o arholiad/asesiad oherwydd salwch neu broblem personol, bydd gofyn bod lleiafrif o 50% o'r asesiad (gan gynnwys gwaith cwrs/asesiad dan reolaeth) wedi ei gwblhau'n barod.
- **Atgoffir rhieni ac ymgeiswyr bod yr ysgol yn disgwyl taliad ar gyfer ceisiadau arholiad mewn achosion ble nad ydy'r ymgeisydd yn mynychu'r arholiad heb reswm dilys a heb gysylltu efo'r ysgol.**
- Noder os gwelwch yn dda nad ydy cam-ddarllen amserlen yn reswm digonol ar gyfer absenoldeb.

AR ÔL YR ARHOLIADAU

- Bydd canlyniadau ar gael i'w casglu o'r ysgol. Bydd y dyddiadau canlyniadau yn cael eu cadarnhau, a bydd y manylion i'w cael ar wefan yr ysgol a thrwy neges destun.
- Os dymunwch i unrhyw berson arall (gan gynnwys aelodau o'ch teulu) gasglu eich canlyniadau ar eich rhan, bydd rhaid i chi roi cadarnhad drwy lythyr i'r ysgol **cyn** y diwrnod canlyniadau.
- Byddwn yn postio canlyniadau i'r ymgeiswyr hynny nad sy'n eu casglu.
- Ni fyddwn o dan unrhyw amgylchiadau yn rhannu canlyniadau gyda neb unai dros y ffôn, drwy e-bost na neges testun.
- Mae graddau TGAU rhwng A* - G.
- Mae graddau Lefel Uwch rhwng A*(A2 yn unig) neu A—E.

YMHOLIADAU YNGHYLCH CANLYNIADAU

- Os ydych angen cyngor wedi derbyn eich canlyniadau, bydd staff dysgu a staff arholiadau Ysgol Syr Hugh Owen ar gael ar ddiwrnod y canlyniadau. Os ydych yn teimlo'n gryf bod y papur angen ei ail-farcio yna dylech gael cyngor am hynny gan y Pennaeth pwnc. Dylech fod yn ymwybodol y gall papur gael ei ail-farcio'n uwch neu'n is neu aros 'run fath. Dylai ceisiadau am ail-farcio gael eu cyflwyno i'r Swyddog Arholiadau. Dylech gwblhau ffurflen ganiatad ymgeisydd a'i dychwelyd gyda siec am y gost. Gall y Swyddog Arholiadau roi mwy o fanylion am hyn i chi.

CYFLWYNO TYSTYSGRIFAU

- Bydd tystysgrifau yn cael eu dosbarthu l ddisgyblion ym Mis Hydref. Fe fydd disgwyl i ymgesiwyd fydd wedi gadael yr ysgol gysylltu efo'r ysgol er mwyn iddynt eu derbyn..
- Dim ond am flwyddyn y mae gofyn i Ysgol Syr Hugh Owen gadw tystysgrifau wedi iddynt gael eu cyhoeddi. Os na fydd ymgeiswyr yn casglu eu tystysgrifau o fewn yr amser hwn (neu os ydynt yn colli eu tystysgrifau) dim ond drwy gais uniongyrchol i'r Bwrdd Arholi y gellir eu derbyn. Bydd hyn yn gofyn am dystiolaeth gennyh (megis tystysgrif geni) a bydd cost i'w dalu am y gwasanaeth. Felly, anogwn chi'n gryf i gasglu eich tystysgrifau unai yn y Noson Gyflwyno neu mor fuan ag sydd posib wedyn a'u cadw'n ddiogel.

Dylid darllen y canllawiau hyn law yn llaw â Pholisi Arholiadau'r Ysgol sydd ar gael drwy gais i'r Swyddog Arholiadau.

CWESTIYNAU AML

Beth ydw i'n ei wneud os oes dau arholiad wedi eu hamserlennu yr un pryd?

Pan fydd cyfuniad amser yr arholiadau yn fwy na 3 awr bydd yr ysgol yn ad-drefnu'r arholiadau'n fewnol. Mae'n bosib bydd gofyn i chi ddod â phecyn bwyd gyda chi os bydd arholiad gennych yn y bore a'r prynhawn gan y bydd rhaid eich cadw ar eich pen eich hun hyd nes y bydd y ddau arholiad wedi eu cwblhau. Pe bydd cyfuniad amser y ddau arholiad yn 3 awr neu lai bydd gofyn i ymgeiswyr sefyll y ddau arholiad un ar ôl y llall gyda thoriad byr yn y canol. Bydd y toriad yn cael ei oruchwyllo a ni fyddwch yn cael caniatad i gyfathrebu gydag unrhyw ymgeisydd arall, byddwch wedyn yn sefyll yr ail arholiad. Os oes gennych unrhyw gwestiwn yna cysylltwch â'r Swyddog Arholiadau.

Beth ydw i'n ei wneud os ydw i'n meddwl fy mod wedi derbyn y papur anghywir?

Bydd y goruchwylwyr yn gofyn i chi wirio eich papur cyn i chi ddechrau. Os byddwch o'r farn bod camgymeriad codwch eich llaw yn syth a dweud wrth y goruchwylwr.

Beth ydw i'n ei wneud os byddaf yn anghofio fy rhif ymgeisydd?

Caiff pob rhif ymgeisydd eu hargraffu ar y cynllun seddau, gan gynnwys eich cerdyn enw ar y ddesg. Bydd goruchwylwyr yn gallu eich helpu i ddarganfod eich rhif.

Beth ydw i'n ei wneud os byddaf yn anghofio rhif y ganolfan?

Rhif y ganolfan ydy **68431**. Bydd hwn wedi ei arddangos yn glir yn yr ystafelloedd arholi.

Beth ydw i'n wneud os câf ddamwain neu mod i'n sâl cyn yr arholiad?

Cysylltwch â'r ysgol cyn gynted ag y bo modd ar ddiwrnod yr arholiad fel y gallwn roi cyngor neu help i chi. Byddwch angen cael tystiolaeth feddygol (gan eich meddyg teulu neu'r ysbyty) os ydych yn dymuno i'r ysgol wneud cais am Ystyriaeth Arbennig ar eich rhan. (gweler isod)

Beth ydy Cais am Ystyriaeth Arbennig?

Mae cais am Ystyriaeth Arbennig yn addasiad i farciau neu raddau ymgeisydd sy'n gymwys i gael ystyriaeth. Mae'r lwfans am Ystyriaeth Arbennig o 0% (rhoir ystyriaeth ond anaddas fyddai ychwanegu marciau) i 5% (a gediwr at amgylchiadau anarferol iawn). **Dylai rhieni fod yn ymwybodol bydd unrhyw ystyriaeth fel arfer yn fechan ac ni ddarperir adborth o gwbl ar y newid beth bynnag y bo.** Yr unig ymgeiswyr sy'n gymwys am Ystyriaeth Arbennig yw'r rhai sydd wedi eu paratoi'n drylwyr ar gyfer yr arholiad a'r gwaith cwrs ond a gânt eu heffeithio gan amgylchiadau tu hwnt i'w rheolaeth ar ddiwrnod yr arholiad. Gall hynny fod e.e. yn ddamwain, salwch neu brofedigaeth. **Dylid hysbysu'r Swyddog Arholiadau yn syth, fel bod cais am Ystyriaeth Arbennig yn cael ei gwblhau. Bydd gofyn i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth i gefnogi unrhyw gais am Ystyriaeth Arbennig o fewn 5 niwrnod i'r arholiad.**

CWESTIYNAU AML

Beth os ydwr i'n teimlo'n sâl yn ystod yr arholiad?

Codwch eich llaw a bydd un o'r goruchwylwyr arholiadau ar gael i helpu. Os ydych yn meddwl bod y salwch wedi effeithio eich perfformiad yn yr arholiad yna dylech ddweud hynny wrth y Swyddog Arholiadau ar ddiwrnod yr arholiad.

Os ydwr i'n hwyr, ydwr i yn cael sefyll yr arholiad?

Mae'n bosib y byddwch yn cael sefyll yr arholiad. Dylech gyrraedd yr ysgol mor gyflym â phosib a nodi eich bod wedi cyrraedd yn y Dderbynfa. Bydd aelod o staff yn eich tywys i'r stafell arholiad. **Ni ddylech** fynd i mewn i'r ystafell arholi, heb ganiatâd, wedi i'r arholiad gychwyn. Mae'n bosib na fyddwch yn cael amser ychwanegol os ydych wedi cyrraedd yn hwyr i'r arholiad.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r ffaith os ydych yn cychwyn arholiad mwy nag 1 awr wedi amser cyhoeddiedig cychwyn yr arholiad, bod rhaid i'r ysgol hysbysu'r bwrdd arholi ac mae'n bosib y gall y bwrdd arholi wrthod derbyn eich gwaith. Sicrhewch os gwelwch yn dda eich bod yn caniatâu digon o amser i gyrraedd yr ysgol a'ch bod yn rhagweld unrhyw broblemau e.e. traffig trwm, fel eich bod yn cyrraedd mewn da bryd.

Os ydwr i'n methu arholiad ydwr i'n cael ei sefyll ar ddiwrnod arall?

Nac ydych. Caiff amserlenni arholiadau eu rheoli gan fyrddau arholi ac mae'n **rhaid** i chi fynychu ar y diwrnod a'r amser sydd wedi ei bennu.

Ydwr i'n gorfod gwisgo gwisg ysgol?

Ydych. Mae rheoliadau arferol yr ysgol ynglyn â gwisg ysgol yn parhau.

Pa offer ddyliwn i eu cario i'r arholiad?

Ar gyfer y rhan fwyaf o arholiadau dylech ddod a 2 feiro (**inc du** yn unig).

Ar gyfer rhai arholiadau byddwch angen cyfrifiannell (Maths/Gwyddoniaeth), pren mesur 30cm (wedi ei farcio mewn cm a mm), miniwr pensil, rhwbiwr, cwmpawd, protractor a phensil lliw (nid 'gel' pens).

Rydych chi'n gyfrifol am ddarparu eich offer eich hun ar gyfer arholiadau. Dylech eu cario i gyd mewn câs pensiliau clir neu fag. Ni ddylech ymgeisio i fenthyg offer gan ymgeisydd arall yn ystod yr arholiad.

Pa offer sydd ddim yn cael ei ganiatau yn yr ystafell arholi?

Peidiwch â dod ag eitemau gwerthfawr efo chi i'r ysgol pan fyddwch yn mynychu arholiad.

Dim ond yr adnoddau a restrir ar y papur arholiad gaiff eu caniatâu, ac mae'n bosib y byddwch yn cael eich diarddel os ydych yn ceisio torri'r rheol hon.

CWESTIYNAU AML

Sut ydw i'n gwybod beth fydd hyd arholiad?

Caiff hyd pob arholiad ei gyhoeddi ar eich amserlen o dan y teitl 'duration'. Bydd y goruchwylwyr arholiadau yn dweud wrthyhch pryd i ddechrau a gorffen yr arholiad. Byddant yn ysgrifennu amser diweddu'r arholiad ar fwrdd gwyn yn yr ystafell arholi. Bydd cloc ymhob un o'r ystafelloedd arholi.

Ydw i'n cael gadael arholiad yn gynnar?

Nac ydych. Nid ydy hi'n bolisi gan yr ysgol hon i ganiatau i neb adael arholiad yn gynnar. Defnyddiwch unrhyw amser sydd gennych yn weddill i ail-edrych dros eich atebion i gyd.

Beth ydw i'n wneud os ydy'r larwm tân yn canu?

Bydd y goruchwylwyr arholiadau yn dweud wrthyhch beth i'w wneud. Os bydd angen i chi wagio'r ystafell yna gadewch eich offer ar eich desg a gadewch yr ystafell yn dawel. Ni ddylech geisio cyfathrebu efo unrhyw ymgeisydd arall yn ystod y cyfnod hwn.

Os oes gennyf fwy nag un arholiad mewn diwrnod oes modd i mi gael cinio yn yr ysgol?

Gallwch unai ddod â pheccyn bwyd efo chi neu brynu cinio fel arfer yn y ffreutur.

Pam fy mod i angen gwirio'r manylion ar y Datganiad Mynediad (Statement of Entry)

Caiff y manylion sydd ar y Datganiad Mynediad eu defnyddio pan yn argraffu eich tystysgrifau. Os yw'r enw a'r dyddiad geni ar eich tystysgrifau ddim yn cyd-fynd efo'r manylion ar eich tystysgrif geni, gall hyn achosi problem i chi pan fydd gofyn i chi ddangos eich tystysgrifau i gyflogwr neu i goleg/prifysgol yn y dyfodol. Dylech hefyd wirio bod y pynciau yn gywir ynghyd â'r haenau priodol a gwiriwch nad oes dim pynciau ar goll.

Mae gennyf hawl i amser ychwanegol—sut bydd hyn yn effeithio sut bydda i'n sefyll arholiad?

Mae rhai myfyrwyr yn derbyn rhwng 10% a 25% o amser ychwanegol. Ble'n bosib bydd y disgyblion hyn yn eistedd efo'i gilydd yn yr ystafell arholi.